Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Nodyn briffio ar y modd y mae Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru yn datblygu'u prosesau busnes i helpu cyflawni nodau allweddol Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio

Mae Estyn, yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn croesawu'r egwyddorion a amlinellir yn Natganiad Polisi Llywodraeth y Cynulliad ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio.

Mae cryn dipyn o waith ar y cyd a chydweithredu eisoes yn bodoli ymhlith cyrff adolygu allanol yng Nghymru, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd dros y misoedd diweddar i archwilio sut i fynd â hyn ymhellach. Bydd y Datganiad Polisi yn darparu canolbwynt defnyddiol ar gyfer gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i gryfhau'r mecanweithiau presennol ar gyfer cynllunio a chyflawni gwaith adolygu allanol mewn modd cydlynus a chymesur.

Mae penaethiaid Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau gwelliant parhaus mewn trefniadau gweithio ar y cyd, yn weithredol ac wrth gyflawni gwaith arolygu ac adolygu lleol, ac yn fwy strategol wrth nodi a chynllunio'u rhaglenni gwaith cyffredinol i gefnogi'r gwelliannau sy'n angenrheidiol mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd uwch aelodau staff ym mhob un o'n sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r gweithgareddau a'r prosesau angenrheidiol i gyflawni'r nod hwn. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad i sicrhau bod atebolrwydd a chyfrifoldebau cryf ar gyfer gweithio ar y cyd a chydweithredu ym mhob un o'n sefydliadau.

Dros y 12 mis nesaf bydd nifer o weithgareddau ac allbyrth allweddol yn cael eu dwyn ymlaen:

- Bydd protocol gweithio newydd, sy'n unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Datganiad Polisi, yn cael ei ddatblygu a'i weithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, AGIC ac ESTYN.

- Bydd fframwaith newydd yn cael ei roi yn ei le i gefnogi dull cydlynus a strategol o gynllunio a chyflawni gwaith archwilio, arolygu ac adolygu ar lefel leol a chenedlaethol.

- Bydd y gweithgareddau a amlinellir yn y fframwaith yn cael eu cynnwys ym mhrosesau busnes pob un o'n sefydliadau, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu datblygu i ymateb i'r Mesur Llywodraeth Leol newydd ac ad-drefnu yn y GIG;

- Lle bo angen, bydd y fframwaith yn cael ei danategu gan femoranda dealltwriaeth newydd neu wedi'i adnewyddu, a phrotocolau rhannu gwybodaeth;

- Byddwn yn cynnig cyfleoedd i staff sy'n gweithio yn ein sefydliadau i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol trwy ddatblygu mentrau fel rhaglenni datblygu staff ar y cyd a digwyddiadau rhannu gwybodaeth; a

- Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau i gyhoeddi gwybodaeth integredig am ein hymrwymiadau i raglenni gwaith cyfunol.

-Diwedd-

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464